CYNGOR TREF PORTHMADOG

Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Medi 15fed, 2026

Cofnodion

1. **Presennol:**
   Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Llywelyn Rhys (Is-gadeirydd), Cyng. Sarah Williams, Cyng. Karena Owens, Cyng. Aled Griffith, Cyng. Alwyn Gruffydd, Cyng. Carol Hayes, Cyng. Glenda Murray
   Elfyn Lewis (Clerc).
   Absennol:
   Neb.
   Ymddiheuriadau:
   Cyng. Dion Humphreys, Cyng. Ben Humphreys, Cyng. Michael Roberts, Cyng. Edward Naish, Cyng. Dr. Melfyn Edwards, Cyng. Jeremy Davies

2. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion:**
   Cyfarfod Llawn Gorffennaf 2026
   Derbynwyd yn gywir. Cynnig. Alwyn Gruffydd. Eilio: Aled Griffith.
   Cyfarfod Eiddo Gorffennaf 2026
   Derbynwyd yn gywir. Cynnig. Alwyn Gruffydd. Eilio: Aled Griffith.
   Cyfarfod Cyllideb Gorffennaf 2026
   Derbynwyd yn gywir. Cynnig. Alwyn Gruffydd. Eilio: Aled Griffith.

3. **Adroddiad y Cadeirydd**
   Mater brys:
   Cynnig bod Cyngor Tref Porthmadog yn symud cyfarfod Mis Hydref o Hydref 13eg i Hydref 20fed oherwydd bod Darlith Eifion Wyn ar yr 13eg.
   Derbynwyd yn unfrydol. Cynnig: Cyng. Carol Hayes. Eilio: Cyng. Karena Owens.
   Roedd hi wedi bod yn un o'r hafau mwyaf braf ers blynyddoedd gyda ardal Porthmadog yn brysur iawn gyda ymwelwyr. Biti nad oedd Ganolfan Gwybodaeth i Ymwelwyr yn y dref.
4. **Adroddiad y Clerc:**
   1. Sul y Cofio
   Bydd angen cael gorchymyn cau y lon yn ei le erbyn y diwrnod.
   Mae torch Y Cyngor Tref wedi ei ordro.
   2. Llwybr newydd Llyn Bach.
   Mae'r Clerc wedi siarad gyda'r staff ar y safle a gobeithir gorffen y llwybr erbyn diwedd y mis.
   3. Wefan Cyngor Tref Porthmadog
   Mae'r Clerc wedi diweddaru y wefan gyda dogfennau Rhaglen a Chofnodion diweddaraf am 2026.
   4. Canolfan Garddio Tremadog
   Trist oedd clywed bod yr ochr garddio i'r busnas wedi dod i ben. Bydd rhaid darganfod cwmni arall er mwyn cael blodau i'r tybiau yn Stryd Fawr Porthmadog.
   5. **Noson Goleuo Port**
   Mae'r Clerc wedi gadael i RJ Electrics wybod bod digwyddiad goleuo Nadolig Port wedi symud i Ddydd Sadwrn Tachwedd 28ain am 5.30. Maent yn hapus gyda'r trefniadau newydd.
   6. **Traffig**

DRAFT

Mae trigolion Heol y Parc angan i rhywun o'r Cyngor Tre i gyfarfod a nhw ar y safle. Cwyno bod traffig yn ofnadwy yno yn yr Haf. Llawer ohono yn bobl yn dreifio o gwmpas yn ddi-angan yn chwilio am le i barcio ond bod y maes parcio yn llawn yn gynnar yn y bora.
Maent yn gofyn i Gyngor Gwynedd roi gwell arwyddion ar y Stryd Fawr er mwyn i fwy o yrrwyr ceir droi am maes parcio Llyn Bach lle mae mwy o lefydd parcio.

7. **Clwb Ieuenctid.**
Cytunwyd i dalu rhent Ganolfan i'r Clwb Ieuenctid.
Cynnig: Carol Hayes. Eilio: Llywelyn Rhys. Derbynwyd yn unfrydol.

8. **Fflagiau Stryd Fawr.**
Roedd Y Cyngor Tre wedi cytuno i dynnu y polion fflagiau i lawr uwchben y siopau. Roedd y polion eisoes wedi eu tynnu i lawr. Cytunwyd i'r Clerc drefnu gyda Alan G. Jones iddo roi y fflagiau newydd i fyny cyn gynted a phosib.

5. **Datgan diddordeb:**
Dim datganiad.
6. **Ceisiadau Cynllunio.**
Rhif Cais: C26/0518/44/LL
Lleoliad: Llaethdy Taleifion, 4 Sgwâr Y Farchnad, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9RB
Bwriad: Newid defnydd rhan o'r llawr daear o dy annedd i ffurfio rhan o'r bwyty presennol.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad. Cynnig: Aled Griffith. Cyng. Eilio: Alwyn Gruffydd. Derbynwyd yn unfrydol.

8. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF
Dim i'w adrodd.

9. MATERION I'W DWYN GERBRON :-

10. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Hydref 13eg 2026 = Hydref 3ydd 2026, (Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

Cyng. Aled Griffith:
1. Parc Bodawen:
Cynnig bod y Cyngor Tre yn dechrau trafodaeth ar syniadau newydd i'r Parc.
Rhanwyd cyflwyniad o gynllun parc Bodawen a gynllunwyd gan Breuddwydion Bro nol yn 2011.
Penderfyniad: Ychwanegu y mater ar raglen Cyfarfod Eiddo Mis Tachwedd o'r Cyngor Tre.

2. Teithio Llesol:
Cynnig bod y Cyngor Tre yn rhoi pwysa ar Gyngor Gwynedd i gwblhau cynllun Teithio Llesol a greuwyd gan Cyngor Gwynedd yn 2018. Buasai'r cynllun yn plethu i mewn i'r cyfarfod a gafwyd gyda swyddogion Gwynedd yn Awst 2026 i roi ychydig o wyrddni ar strydoedd Porthmadog.
Rhoddwyd cyflwyniad o gynllun Teithio Llesol a greuwyd gan Cyngor Gwynedd nol yn 2018 i welliannau i strydoedd Porthmadog. 8 mlynedd yn ddiweddarach, mae rhannau o'r cynllun dal heb eu cyflawni.
Penderfyniad: Gofyn i Gyngor Gwynedd i barhau gyda'r prosiect ac iddynt ystyried cwblhau'r gwaith. Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion perthnasol Y Cyngor Sir.

3. Cynnig bod Y Clerc yn ail gyflwyno'r rhestr aros am ateb i'r cyfarfod misol er mwyn cael cadw i fyny ar y cynigion ac os ydym yn derbyn atebion er mwyn ail yrru os fydd rhaid.

DRAFT

Penderfyniad: Cytunnodd y Clerc.

4. Mae yna gynllun gan Gyngor Gwynedd i stopio Bws 3 Caerlloi rhwng Porthmadog a Phwllheli (sydd yn mynd drwy Dremadog) a chyflwyno bws Arfordir Meirion/Dwyfor G23 a fydd yn rhedeg rhwng Y Bermo a Phwllheli. (Digwyddiad galw heibio gan Gyngor Gwynedd yn Ganolfan Hamdden ar Fedi 15fed rhwng 10.00yb a 2.00yp) Cynnig bod Cyngor Tre Porthmadog yn gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd a holi os fydd gwasanaeth newydd Arfordir Meirion/Dwyfor G23 yn teithio drwy Dremadog.
Penderfyniad: Tynnwyd y cynnig yn ol. Roedd staff Cyngor Gwynedd gyda digwyddiad yn Y Ganolfan ar Fedi 15fed wedi egluro bydd y bws yn mynd drwy Dremadog fel Bws 3.

11. Gohebiaeth: Rhestr Aros am Ateb.
Iwan ap Trefor – Cyngor Gwynedd. Llwybr newydd Llyn Bach.
Roedd y Clerc wedi bod yn siarad gyda staff oedd yn gwneud y llwybr. Amcangyfrifwyd y buasai y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mis Medi 2026.

12. <u>GOHEBIAETH :</u>

1	Arwel Lewis Jones – Breese Gwyndaf	Cytundeb les rhwng Cyngor Tref Porthmadog a'r Grid Cenedlaethol parthed Cae Chwarae Bodawen. Roedd Breese Gwyndaf wedi cynghori Cyngor Tref Porthmadog i beidio arwyddo y cytundeb les fel ag yr oedd ac yn annog i'r Cyngor drafod rhai materion ymhellach gyda'r Grid Cenedlaethol. **Penderfyniad: Gofyn i Arwel Lewis Jones i barhau gyda'r drafodaeth parthed y les gyda'r Grid Cenedlaethol.**
2	Breese Gwyndaf	Cytundeb trosglwyddo Cae Pawb. **Penderfyniad: Derbynwyd amodau'r les. Y Clerc i drefnu bod copi o'r les wedi ei arwyddo yn cael ei ddychwelyd i Gyngor Gwynedd.**
3	Nia Clarke (Cyngor Gwynedd)	Prosiect SGG Porthmadog **Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.**
4	RJ Electrics	Goleuadau Nadolig **Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda RJ Electrics i'w hatgoffa bod y goleuadau Nadolig yn cael eu rhoi ymlaen am 5.30 ar Dachwedd 28ain.**

<u>13. MATERION ARIANNOL</u> :

Derbyniadau :

1	HSBC	Llog Banc hyd at Awst 19, 2026	£39.19

Taliadau:-

1	Cyngor Gwynedd	Tal cytundeb trosglwyddo perchnogaeth Cae Pawb	£1

DRAFT

2	Elfyn Lewis	Cyflog Clerc Gorffennaf 2026	£1408.58
3	Elfyn Lewis	Cyflog Clerc Awst 2026	£1408.58
4	HMRC	Treth Incwm Clerc Gorffennaf 2026	£352.14
5	HMRC	Treth Incwm Clerc Awst 2026	£352.14
6	Marian Roberts	Tal gwaith ymgynghori i fantoli llyfrau blwyddyn 2025-2026 a pharatoi ar gyfer Archwiliad Mewnol ac Archwiliad Llawn 2025-2026.	£368.63
7	HMRC	Treth Incwm Marian Roberts	£92.16
8	Defib Store	Padiau newydd i defib Morfa Bychan. Taliad arlein	£168
9	Williams a Williams	Sgip Cae Pawb	£306
10	HSBC	Taliadau Banc hyd at Awst 19, 2026	£2.40
11	Cyngor Gwynedd	Archwiliad Mewnol Cyngor Gwynedd	£510
12	Alan G. Jones	Tynnu polion fflagiau i lawr o Stryd Fawr Porthmadog	£480
13	Alan G. Jones	Ail-osod polion fflagiau yn Stryd Fawr Porthmadog	£480
14	Information Commissioner's Office	Diogelu data	£52.00

Awdurdodwyd y taliadau. Cynnig. Cyng. Alwyn Gruffydd. Eilio Cyng. Carol Hayes.

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Elfyn Lewis (Clerc)
Medi 22ain, 2026

Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU
Ffôn / Tel : 01766 514210
E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com

DRAFT